Tasg grŵp *Kristallnacht*

Mae artistiaid a chrewyr theatr yn aml yn defnyddio **symbolaeth** i adrodd stori.

Gan ddefnyddio'r gwahanol ddeunyddiau a ddarparwyd i chi neu eitemau sydd gennych wrth law, eich tasg yw creu gosodwaith* sy'n cyfleu stori'r 'bar mitzvah olaf' a chanlyniad dinistr treisgar y synagogau yn ystod *Kristallnacht*.

Efallai yr hoffech ystyried:

- Pa wrthrychau penodol ydych chi am eu cynnwys? Meddyliwch am yr hyn rydych chi wedi ei ddewis. A fydd y rhain yn cael eu haddasu neu eu newid mewn unrhyw ffordd? (E.e., gwahoddiad papur wedi'i rwygo.)
- Bylchu. Ble mae eich gwrthrychau yn mynd i gael eu lleoli a beth allai hyn ei gynrychioli? (E.e., meddyliwch am y glöyn byw ar ben y weiren bigog.)
- Defnydd o liwiau. Beth allai gwahanol liwiau ei gynrychioli?
- Defnydd o oleuadau (a chysgodion).
- Ydych chi'n dymuno defnyddio unrhyw sain? Efallai darn o gerddoriaeth offerynnol neu effaith sain?

***Beth yw gosodwaith?**
Darn o gelf 3D mewn gofod yw gosodwaith. Weithiau gall ddod â chelf a pherfformiad at ei gilydd.